# Hanes yr Henfyd Safon Uwch (Amser Llawn)

Cynlluniwyd Safon UG OCR yn Hanes yr Henfyd i helpu dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd hynafol ac etifeddiaeth y byd hynafol mewn cymdeithas heddiw.

Bydd Safon UG OCR yn Hanes yr Henfyd yn galluogi dysgwyr i:
– datblygu diddordeb eang a helaeth yn hanes milwrol, gwleidyddol, crefyddol a chymdeithasol y byd hynafol
– caffael gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o gyfnodau dethol yn hanes yr henfyd a defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i lunio dadleuon cydlynol gyda barn wedi'i seilio ar brawf
– deall hanes Groeg a Rhufain yng nghyd-destun eu gwareiddiadau cyfagos a'r rhyngberthynas rhwng y gwareiddiadau hyn
– archwilio a gwerthuso arwyddocâd digwyddiadau, unigolion, materion, hunaniaethau a chymdeithasau yn hanes y byd hynafol
– deall natur tystiolaeth hanesyddol o'r byd hynafol a'i phrinder er mwyn adeiladu dealltwriaeth o gyfnodau hanesyddol a astudiwyd a'r dulliau a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi a gwerthuso'r dystiolaeth. Dylai myfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut y cafodd y gorffennol hynafol ei gynrychioli gan haneswyr hynafol
– datblygu dealltwriaeth o gysyniadau hanesyddol megis newid, parhad, achosiaeth, canlyniad ac arwyddocâd yng nghyd-destun y cyfnodau hanesyddol a astudiwyd
– datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddadleuon hanesyddol perthnasol a sut y gellir ymchwilio i'r rhain
– datblygu'r gallu i wneud cysylltiadau a thynnu cymariaethau rhwng gwahanol gyfnodau, unigolion, materion, hunaniaethau a chymdeithasau.

Ymgeisio am Lefelau UG neu Lefel A? Cliciwch 'Gwnech Gais Nawr' ar unrhyw UN o'r pynciau y mae gennych ddiddordeb mewn eu hastudio. Llenwch y ffurflen gais ar-lein, lle gofynnir i chi nodi'ch dau ddewis arall. Yna archebwch apwyntiad Cyfweliad i gwrdd â'r tiwtoriaid a thrafod y dewisiadau sydd orau gennych.

## Gofynion Mynediad

Isafswm o 6 TGAU graddau C yn cynnwys gradd C yn Saesneg Iaith a gradd C mewn pwnc TGAU cysylltiedig.

## Rhagolygon Gyrfa

Mae Lefel mewn Hanes yr Henfyd yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Hanes Modern, y Gyfraith, Saesneg,

Gwleidyddiaeth, Hanes yr Henfyd neu gyrsiau Clasuron eraill mewn addysg bellach ac uwch.

Ymhlith y cyfleoedd gyrfa mae Archifydd, Bargyfreithiwr, Rheolwr Treftadaeth, Darlithydd, Ymchwilydd, Cyfreithiwr a Newyddiadurwr.

## Modiwlau'r cwrs

Bydd dysgwyr yn astudio DWY astudiaeth cyfnod. Bydd yr astudiaethau cyfnod yn galluogi dysgwyr i astudio naratif sy'n datblygu o rychwant sylweddol o hanes Groeg a Rhufain dros o leiaf 75 mlynedd. Bydd hyd y cyfnod astudio yn annog dysgwyr i ddatblygu eu diddordeb a'u dealltwriaeth o ddigwyddiadau, unigolion, datblygiadau a materion pwysig, ac yn darparu ystod gronolegol ddigonol i allu rhoi sylwadau ar newid, yn y tymor byr a'r tymor hir.
Mae Elfen 01 yn astudiaeth o gyfnod Groegaidd seiliedig ar ffynhonnell yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng dinas-daleithiau Groeg a hefyd y berthynas rhwng dinas-daleithiau Groeg ac Ymerodraeth Persia yn y cyfnod 492-404 BC.
Mae Elfen 02 yn astudiaeth o gyfnod Rhufeinig seiliedig ar ffynhonnell yn canolbwyntio ar frenhinlin Iwlio-Clawdiaidd, o 31 BC i AD 68.

## Asesiad

Lefel UG
492 – 404 CC Asesiad Allanol 1 awr 30 munud
02 Yr Ymerawdwyr Julio-Claudian
31 CC – OC 68 Asesiad Allanol 1 awr 30 munud

Lefel A2
Astudiaeth Dyfnder Gwlad Groeg Asesiad Allanol 2 awr 30 munud
Astudiaeth Dyfnder Rhufeinig Asesiad Allanol 2 awr 30 munud

## Costau Ychwanegol

Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â chwrs.

### DULL ASTUDIO

FT

## LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

## HYD Y CWRS

2Y